**Rapio 1 2 3**

Pennill cynta’ rapio’n hawdd, rocio’r meic tan oriau’r wawr,
llifo gyda fi, un, dau, tri, dysgu chdi sut i M.C.
Odli geiriau, dyna wers un, fatha’ artist gyda llun.
Cym dy amser gyda’r rap, llifo fel dŵr allan o’r tap.

Pennill dau, ma’ hwn yn anoddach, ‘llnau dy geg allan, dwi ddim ‘isho sothach.
Pan ‘da ni’n rapio, ‘da ni angen bod yn glir, neu mae’r geiriau’n swnio’n anghywir.
‘Di hynna ddim yn dda, os ti isho bod yn rapiwr, os ti’n gorfod defnyddio dy bapur.
Cŵl, cŵl dyna pennill dau, da iawn chdi, mynd ati a parhau.

Pennill tri, dyma gwers i chi, llifo fy noswaith yn y lle i rocio’r tŷ.
Rocio a stopio ar y meic, yn yr iaith gymraeg, odli fo iaith,
odli fo tân gyda tafod y ddraig.
Curiadau electroneg rapio gyda tân, ti’n gwybod siglo ni,
rocio’r lle gyda geiriau sy’n symud ymlaen.
Byth yn stopio ar y meic, cario ’mlaen i gynrychioli,
llongyfarchiadau, a dyna ddiwedd y stori.